# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 1

GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

*Gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol*

### 3 Dyletswydd i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol

(1) Onid yw adran 4(1)(a) yn gymwys, rhaid i'r partneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn unol â'r canlynol–

(a) cynllun ar gyfer eu hardal a gytunwyd o dan adran 2; neu

(b) cynllun ar gyfer eu hardal a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 4.

(2) Os gwnaed newidiadau i gynllun o dan adran 2(6) neu 4(2) rhaid i'r gwasanaethau gael eu darparu yn unol â'r cynllun y gwnaed newidiadau iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 3 mewn grym ar 1.10.2012 gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 3.